

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 30AIN O HYDREF 2017 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Hywel Davies, Philip Williams, Geraint Jones, Elfed Williams, Stanley Williams. Iwan Jones a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Iona Edwards-Jones, Jill Evans a Falmai Evans.

2. AELOD NEWYDD.

Croesawodd y Cadeirydd i'r Cyngorydd Geraint Jones i'w cyfarfod gyntaf o'r Cyngor.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Y Cyngorwyr Elfed Williams a Philip Williams ar eitem 7 isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Fedi 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

- A. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar sylwadau Nerys Harries ynglŷn ar broblem llwybr troed sydd yn dal yn bodoli tu ôl i Cae'r Felin, Llanrhaeadr.
- B. Derbyniwyd gwybodaeth fod y teiars wedi cael eu symud ar ffordd gefn Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr.

6. SYLWADAU YMATEB SCCH LUCY GREEN YNHLYN AR FATERION PLISMONA YN SARON A CHODWYD YN CYFARFOD MIS GORFFENNAF Y CYNGOR.

Dim sylwadau yn codi.

7. CYMDEITHAS CADWRAETH LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Bwyllgor Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i gymred drosodd y Gymdeithas os mae'r Pwyllgor presennol ddim yn parhau ar unrhyw bryd yn ystod tymor 25 mlynedd y prosiect. Cadarnhawyd yr aelodau i'r cais ac i'r Cadeirydd ar Is-gadeirydd ymateb dros y Cyngor Cymuned.

8. SYLWADAU I'R CYNGHORYDD SIR DDINBYCH HUW HILDITCH-ROBERTS (AELOD Y CABINET AR ADDYSG) SYDD YN MYNYCHU'R CYFARFOD NESAF Y CYNGOR.

Penderfynwyd yr aelodau ar y sylwadau canlynol i drafod gyda'r Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts:-

- A: Gwaith ar safle Maes Parcio Ysgol Pant Pastynog.
- B. Estyniad i'r Ysgolion Bro Cinmeirch a Phant Pastynog oherwydd bod yr ysgolion yn llawn.
- C. Trafnidiaeth i'r Ysgolion Uwchradd Brynhyfryd, Rhuthun a Glan Clwyd, Llanelwy.

## 9. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £13,606.00.

B. Taliadau:-

1. Swyddfa Archwilio Cymru am Archwiliwr Allanol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2017 - £181.80.

2. Cynghorydd Philip Williams - chostau teithio i'r Cyfarfod Blyneddol Un Llais Cymru a'r 30ain o Fedi 2017 - £98.00.

C. Derbyniwyd Ffurflen Flynyddol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2017 wedi ei archwilio gan yr Archwilwyr Allanol (BDO o Southampton). Yr unig sylwad oedd mi fydd angen cyhoeddi'r materion "Ddatgan Diddordeb" i'r cyhoedd.

## 10. MATERION CYNLLUNIO.

Dim yn codi.

## 11. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth mi fydd Cyngor Sir Ddinbych ond yn pentyrru Halen ar ffyrdd gyda gelltydd a throadau dros dymor y gaeaf. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir sut maent am ddiffiniant allt.

B. Gofynnwyd Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am ffyrdd blaenoriaeth i'w hystyriaeth am waith cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18 yn y gymuned. Penderfynwyd ar ffyrdd canlynol-

1. Graig Lwyd i Bentref Prion.

2. Ffordd heibio'r Fron, Prion.

3. Ffordd heibio Bryn Mulan, Prion.

4. Ffordd heibio Llwyn-y-Gog, Prion.

## 12. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd y Clerc atgoffa Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ar waliau cerrig yn rhydd yn afonydd Stad Pont-y-Bedol, Llanrhaeadr a Stad Gernant, Llanrhaeadr.

B. Penderfynwyd y Clerc adroddi'r canlynol i'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych:-

1. Arwydd groesffordd ar goll wrth groesffordd Nant-y-ci yn Saron.

2. Adroddi fod y goeden wedi syrthio yn y gwyntoedd diweddar ar allt Saron ar ôl adroddi eisoes fod y goeden ar fin ddisgyn.

C. Penderfynwyd trafod y canlynol yn cyfarfod nesaf y Cyngor:-

1. Wefan y Cyngor Cymuned.

2. Pwyllgor/Targed Lleol Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

## 13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain o Dachwedd yn Ysgol Bro Cinmeirch am 7.30 o'r gloch.